Rydw'i wedi sefyll ar ysgwyddau cewri

(gostyngeiddrwydd / penderfyniad / gwerthfawrogi)

"Rydw i wedi rhoi eich cinio ar y bwrdd," meddai'r wraig oedd yn gofalu am Isaac Newton. Anghofiodd yntau bopeth am eiriau'r wraig. Bu wrthi'n ddiwyd yn ceisio datrys problem arbennig. Dwy awr yn ddiweddarach daeth y wraig i mewn i'r gweithdy i glirio'r llestri cinio a dyna lle roedd y llestri'n union fel roedden nhw wedi cael eu gadael a'r bwyd oedd arnyn nhw wedi oeri. "Ydych chi eisiau cinio ai peidio?" gofynnodd y wraig, ond ni chymerodd Isaac Newton fawr o sylw ohoni. Aeth yn ei flaen i geisio datrys ei broblem a rhoi ei holl feddwl arni. Weithiau byddai'n mynd am ddiwrnod cyfan heb fwyta dim. Byddai ei ofalwraig yn poeni llawer amdano.

Gŵr felly oedd Isaac Newton, gŵr oedd â'i fryd ar ddod i ddeall beth oedd yn digwydd yn y byd o'i gwmpas. Ond nid felly roedd o pan oedd o'n blentyn ysgol. Yn yr ysgol plentyn breuddwydiol iawn ydoedd. Yn ystod y gwersi byddai ei feddwl ar bethau eraill – meddwl am yr adar a'r anifeiliaid yn y caeau. Ond pan oedd yn cael gwneud gwaith llaw byddai ar ei orau y tro hynny. Roedd wrth ei fodd yn gwneud pethau. Ond buan iawn y gadawodd yr ysgol i helpu ei fam weddw ar y fferm. Roedd yn hoff iawn o'r anifeiliaid ond gwell ganddo fo oedd creu pethau efo'i ddwylo – preseb i'r gwartheg a chafnau i'r moch. Un diwrnod dywedodd wrth ei fam, "Mam, rydw i wedi cael digon ar weithio ar y fferm. Mi fuaswn i'n hoffi mynd i goleg i ddysgu mwy am wahanol bethau. Rwy'n gwybod na wnes i fawr ohoni yn yr ysgol ond rydw i'n teimlo yn awr fy mod yn barod i ddysgu mwy." Doedd gan ei fam ddim gwrthwynebiad o gwbl a phan oedd yn bedair ar bymtheg oed gadawodd ei gartref yn Lincoln i fynd i Brifysgol Caergrawnt. Ymhen dim roedd wedi setlo a byddai'n treulio oriau ddydd a nos yn astudio mathemateg a gwyddoniaeth. Yn wir, ymhen dim, roedd yn gwybod gymaint os nad mwy na'i athrawon.

Yn ystod ei gyfnod yn y coleg lledaenodd afiechyd creulon drwy'r wlad – y pla – a bu'n rhaid anfon y myfyrwyr i gyd adref. Gwnaeth Newton yn fawr o'r cyfle hwn a threuliodd fisoedd yr haf yn astudio, arbrofi a darganfod pethau diddorol am oleuni,

disgyrchiant, a gwahanol liwiau. Ysgrifennodd am ei ddarganfyddiadau mewn llyfr a gyhoeddodd rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Rai blynyddoedd ar ôl i'r pla a'i effeithiau ddiflannu o'r wlad aeth Newton yn ôl i'r coleg ond nid fel myfyriwr y tro hwn ond fel athro. Dechreuodd weithio ar y syniad o wneud telesgob i ddysgu mwy am y sêr a'r planedau. Bu wrthi hefyd yn arbrofi i weld pam fod pethau'n syrthio i'r ddaear yn hytrach na mynd i fyny i'r awyr. Dyma pryd y darganfu fod y ddaear yn tynnu pethau ati'i hun, sef disgyrchiant. Gwyddom am y stori enwog amdano'n eistedd o dan y goeden afalau ac un afal yn syrthio ar ei ben!

Yn dilyn ei ddarganfyddiadau daeth Isaac Newton yn Syr Isaac. Cynrychiolodd y Brifysgol yng Nghaergrawnt fel Aelod Seneddol ond dim ond blwyddyn yr arhosodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Ond mwynhaodd ei gyfnod yn y brifddinas. Dyrchafwyd ef i swydd Meistr y Mint Brenhinol, swydd bwysig iawn ar y pryd. Roedd pobl ar draws y byd yn edrych i fyny ato a chredai llawer mai ef oedd y gŵr doethaf yn y byd. Pan fyddai pobl yn ei ganmol, fe ddywedodd unwaith, "Os ydw i wedi llwyddo i weld ymhellach na neb arall y rheswm am hynny ydi fy mod wedi sefyll ar ysgwyddau cewri."

Wrth iddo heneiddio credai Newton nad oedd ei holl arbrofion a'i ddarganfyddiadau ym myd golau, mathemateg a'r sêr yn bwysig a bod yna bethau pwysicach o lawer mewn bywyd. Iddo ef y peth pwysicaf i gyd oedd astudio'r Beibl. Pan fyddai ei ofalwraig yn dod â bwyd iddo byddai'n gofyn iddi aros efo fo er mwyn iddo gael trafod rhai o straeon y Beibl gyda hi. Byddai'n trafod ambell adnod am ddyddiau a cheisio gweld beth oedd gwir ystyr y geiriau. Bu farw yn 84 mlwydd oed ac fe'i claddwyd yn Abaty Westminster.

Adnod: "Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo." Salm 19:1

Gweddi: Gwna fi, O Dduw, yn berson diolchgar am fy mod wedi elwa ar yr hyn mae eraill wedi ei ddysgu i mi. Amen.

Trafod:

- Ewch ati i restru rhai o ddarganfyddiadau Isaac Newton.
- A fyddech chi'n dweud fod darganfyddiadau'r gwyddonydd yn bwysicach na'r hyn sydd ar dudalennau'r Beibl?